

POLISI IAITH GYMRAEG CYNGOR TREF LLANBEDR PONT STEFFAN ADOLYGIAD BLYNYDDOL 2011

Mabwysiadodd Gyngor Tref Llanbedr Pont Steffan Gynllun iaith Gymraeg o dan Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar 30 Awst 2007. Mae rhan 6.4 o'r cynllun yn mynnu fod y Cyngor yn derbyn adroddiad bynyddol ar y cynllun, bod y cyhoedd yn cael y cyfle i wneud sylwadau ar yr adroddiad, a bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Penodwyd Cyngorwyr Rob Phillips, Dorothy Williams, Chris Thomas, Selwyn Walters a Chlerc y Dref i Bwyllgor Iaith Gymraeg i gyflwyno'r adroddiad blynyddol. Nid yw'r adroddiad hwn yn sylwi ar bob pwynt gweithredu yn y cynllun, dim ond y rhai lle mae angen nodi llwyddiant neu argymell newid ar gyfer y dyfodol.

CYNLLUNIO A CHYFLWYNO GWASANAETHAU

Mae'r cyngor wedi parhâi i arddangos arwyddion dwyieithog pan fydd arwyddion newydd yn cael eu codi. Yn ystod 2011 talwyd am un arwydd a godwyd ar y ffordd mewn i'r dref. Roedd yr arwydd hon yn ddwyieithog gyda blaenoriaeth i'r Gymraeg.

YMDRIN Â'R CYHOEDD SYDD YN SIARAD CYMRAEG

Derbyniodd y cyngor nifer o llythyron ac e-byst yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn diwethaf ac maent wedi cael eu hateb yn y Gymraeg. Mae'r ffaith fod y Cyngor yn croesawi gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg wedi cael ei nodi ar bob llythyr sy'n mynd allan.

Parhaoedd y cyngor i ddarparu gwefan dwyieithog gyda chofnodion y cyngor a chynnwys parhaol ar gael yn Saesneg a'r Gymraeg.

Yn dilyn sylwadau'r clerc yn 2009-10 yn mynegu pryder nad oes digon o amser ar gyfer gwaith cyfieithu o ganlyniad sefydlu is-bwyllgor Cae Maesyderi, cytunodd cyngor y dref y ganiatad 2 awr ychwanegol y mis ar gyfer cyfieithu.

GWYNEB CYHOEDDUS Y CYNGOR

Mae papur pennod, gwefan ac e-bost y Cyngor yn ddwyieithog. Mae neges ar bapur pennawd ac e-byst y Cyngor yn nodi ein bod yn croesawi gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae'r rhaglen a gyhoeddir gan y Cyngor ar gyfer Sul y Cofio yn ddwyieithog.

Mae'r Cyngor yn ystyried y Gymraeg wrth rhoi grantiau. Mae ffurflen i'r rhai sy'n gwneud cais am arian lenwi, er mwyn esbonio sut mae nhw'd adlewyrchu natur ieithyddol yr ardal.

Gwnaethpwyd cyfraniadau sylweddol i Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen, Urdd Gobaith Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol, clwb Ffermwyr Ifanc Ceredgion a Chronfa Coffa T. Llew Jones yn ystod y flwyddyn.

Yn dilyn y drefn a sefydlwyd yn 2010 cyflogwyd cyfieithydd ar y pryd i alluogi cynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg.

GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN

Argymhellir dylid rhoi datganiad i'r *Cambrian News* a'r *Carmarthen Journal* a hysbyseb yn *Clonc* i hysbysebu'r adolygiad blynyddol a gofyn am sylwadau. Argymhellir gosod copïau ar wefan y Cyngor ac yn y llyfrgell. Bydd copïau ar gael oddi wrth y Clerc.

Is-Bwyllgor Iaith Gymraeg
17 Mawrth 2012